Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Alldro 2017-18

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro archwiliedig Llywodraeth Cymru 2017-18 wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Ail Gyllideb Atodol 2017-18.

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnig y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

*Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.*

**1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

**1.5** Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2017-18 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Mawrth 2018. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar 9 Tachwedd 2018. Gweler y ddolen ganlynol:

https://beta.llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru-2017-i-2018

**1.6** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru sydd mewn grym ar y pryd.

## 2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2017-18[1]

**2.1** Cyflwynwyd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 1 Awst 2018. Mae'r cyfrifon archwiliedig hyn yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2017-18.

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol.

**2.3** Mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o bob gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% o gyllidebau lefel MEG ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £0.5 miliwn). Mae dadansoddiad o'r alldro yn ôl MEG ar gael yn Atodiad 1.

### Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)[2]

**2.4** Alldro DEL archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 oedd £15,758 miliwn. Mae hyn yn danwariant o £104.7 miliwn yn erbyn y gyllideb, fel y cytunwyd arno yn yr Ail Gyllideb Atodol.

**2.5** Mae'r alldro hwn yn cynnwys tanwariant o £27 miliwn yn erbyn y gyllideb Adnoddau Cyllidol (refeniw) a gorwariant o £45.6 miliwn yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae hyn yn danwariant o 0.2% yn erbyn Adnoddau Cyllidol a 2.6% yn erbyn Cyfalaf.

---

[1] Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu weinyddu cyhoeddus yw Prif Grŵp Gwariant Addysg neu MEG.

[2] Terfyn Gwariant Adrannol: cyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys ei Mawrhydi sy'n cael ei rannu ymhellach yn gyfansymiau rheoli Adnoddau Cyllidol (refeniw), Adnoddau Anghyllidol (refeniw wedi'i glustnodi) a Chyfalaf.

**2.6** Mae tanwariant o £123.4 miliwn o ran y gyllideb Adnoddau Anghyllidol (heb fod yn arian parod). Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac yn ymdrin ag addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant a diddymu darpariaethau benthyciadau i gyfyrwyr. Felly, ni allai'r arian fod wedi cael ei ailgyfeirio at raglenni gwariant Llywodraeth Cymru.

## Alldro DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw)

**2.7** Unwaith eto roedd gwariant yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb ar lefel MEG yn agos iawn ati. Cafwyd gwybod am danwariant bach iawn mewn pump o'r chwe MEG. Dim ond un gyllideb wnaeth ragori ar amrywiad o 1% o'i mesur yn erbyn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod gwariant yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Cymru o £13.3 biliwn wedi'i wneud i'r eithaf.

**2.8** Y tanwariant o ran refeniw Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd £16 miliwn. O hyn, mae £10.6m yn ymwneud â thanwariant ar gyllidebau optegol a fferyllol a ddelir yn ganolog yn y MEG yn hytrach nag fel rhan o'r dyraniad â therfyn arian parod i gyrff y GIG. Mae'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw, ac maent felly'n anodd eu darogan. Cafwyd llithriant o £5.4m hefyd ar gyllidebau refeniw gofal plant. Cyfanswm y diffyg gan gyrff y GIG yng Nghymru oedd £167 miliwn. Llwyddwyd i ymdopi â'r diffyg hwn trwy danwario ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a ddelir yn ganolog yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**2.9** Adroddwyd amrywiant o 3.5% yn erbyn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu sy'n cyfateb i danwariant o £10.5 miliwn. Mae'r elfen fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â chynlluniau refeniw Buddsoddi i Arbed lle'r oedd llai o gyfleoedd buddsoddi da yn 2017-18. Cafodd arbedion costau staff o £2.2m eu cynhyrchu yn y flwyddyn i beri i gyllidebau gydymffurfio â chyllidebau llai yn y blynyddoedd i ddod. Roedd achosion eraill o danwariant yn cynnwys: £1.8m o arbedion yn gysylltiedig â dibrisiant ystad Llywodraeth Cymru; llithriant o £1.2m ar brosiectau TG cynlluniedig

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; ac arbedion o £2m yn erbyn y gyllideb gwasanaethau gwybodaeth a chymorth; Mae amrywiannau bach eraill yn ffurfio gweddill yr amrywiant.

### Alldro DEL Cyfalaf

**2.10** Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y swm a gariwyd ymlaen gan Lywodraeth Cymru yn y gronfa wrth gefn sydd newydd ei chreu i Gymru (gweler paragraff 3.2 isod), cafodd nifer cyfyngedig o gynlluniau cyfalaf eu hariannu'n hwyr yn y flwyddyn ariannol ac ar ôl yr Ail Gyllideb Atodol. Roedd hyn yn golygu bod yr alldro cyffredinol ar Gyfalaf yn fwy na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Penderfynwyd lleddfu ar y posiblrwydd o golli cronfeydd a ddygwyd ymlaen gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn bresennol.

**2.11** O ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw adroddwyd gorwariant o £39.5 miliwn yn erbyn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu cronfeydd o fewn Banc Datblygu Cymru.

**2.12** Adroddwyd gorwariant cynlluniedig pellach o £9 miliwn yn erbyn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunwyd y gallai nifer cyfyngedig o gynlluniau blaenoriaethol a gynigir gan sefydliadau'r GIG gael eu hariannu.

**2.13** Cafwyd tanwariant o £1.8 miliwn ar gyllideb cyfalaf MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae'r tanwariant hwn yn erbyn y gyllideb Buddsoddi i Arbed. Nodwyd llai o gyfleoedd buddsoddi da yn 2017-18.

### Alldro DEL Adnoddau Anghyllidol (refeniw wedi'i glustnodi)

**2.14** Mae'r rhan fwyaf o danwariant DEL Llywodraeth Cymru'n ymwneud â'r cyllidebau hyn heb fod yn arian parod (£123.4 miliwn). Mae cyllidebau Adnoddau Anghyllidol yn cael eu clustnodi ac yn darparu ar gyfer

amcangyfrifon cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiad i ddarpariaethau, megis dileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr. Ceir eglurhad o'r rhai lle cafwyd tanwariant o 1% neu fwy isod.

**2.15** Nodwyd tanwariant o £6.2 miliwn yn y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol heb fod yn arian parod. Mae'r gyllideb yn bennaf yn ariannu'r taliadau dibrisiant sy'n codi ar ystad y GIG. Mae rhagolygon yn sensitif i: gwamaliadau yn y cynnydd ar gynlluniau cyfalaf presennol; prisiadau blynyddol; ac amseru ychwanegiadau a gwarediadau cyfalaf.

**2.16** Roedd y tanwariant o £34.1 miliwn yn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn ymwneud yn bennaf â gofyniad dibrisiant llai yn dilyn yr arolwg cyflwr blynyddol ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Y rhwydwaith ffyrdd yw ased mwyaf Llywodraeth Cymru.

**2.17** Nodwyd tanwariant o £78.8 miliwn yn erbyn y gyllideb Addysg a Sgiliau. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys amcangyfrif o gost y benthyciadau i fyfyrwyr sy'n cael eu dileu bob blwyddyn. Cynhyrchir y gost a gyfrifir gan fodel ystadegol a gafodd ei ddatblygu gan Lywodraeth y DU. Codir y gost ar werth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r gwaith modelu'n gymhleth ac yn cymryd sawl ffactor cymdeithasol ac economaidd i ystyriaeth. O ganlyniad, mae'n anodd ei ddarogan yn fanwl gywir.

**2.18** Cafwyd tanwariant o £2.3 miliwn yn MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Mae'r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau dibrisiant ar asedau o dan adeiladwaith y dechreuwyd eu defnyddio ar ôl diwedd y flwyddyn.

**2.19** Nododd MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru danwariant o £1.8 miliwn. Mae'r tanwariant hwn yn deillio o gostau dibrisiant is na'r disgwyl mewn perthynas ag ystad Llywodraeth Cymru.

## Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**2.20** Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, ac fel arfer, y Trysorlys sy'n darparu'r arian hwn. Mae'r mwyafrif o'n cyllidebau AME yn cwmpasu taliadau heb fod yn arian parod ac mae enghreifftiau'n cynnwys diffygiant asedau, codiadau mewn darpariaeth, benthyciadau i fyfyrwyr sydd wedi'u rhoi a'u had-dalu a phrisiadau pensiwn cyrff a noddir. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario yn erbyn rhaglenni AME. Esbonnir y prif amrywiannu isod.

**2.21** Bu tanwariant o £9 miliwn yng nghyllideb AME Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cysylltir y rhan fwyaf o'r tanwario o £7.7 miliwn â diffygiant yng ngwerth asedau yn ystad y GIG. Mae'r gweddill yn ymwneud â symudiadau ar ddarpariaethau'r GIG.

**2.22** Mae'r amrywiant AME o  £41.7 yn MEG yr Economi a Thrafnidiaeth yn deillio'n bennaf o ofyniad llai am ddarpariaethau a thaliadau yn erbyn prosiectau o bwys.

**2.23** Nodwyd tanwariant o £46.8 miliwn ar gyllideb AME Addysg. Cafwyd tanwariant o £29 miliwn ar y benthyciadau i fyfyrwyr. Mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu harwain gan y galw, ac maent yn  anodd eu darogan. Roedd nifer y benthyciadau a nifer yr ad-daliadau yn y flwyddyn yn llai na'r disgwyl. Mae gweddill y tanwariant o £17.8 miliwn i'w briodoli i'r symudiad diwedd blwyddyn yn y ddarpariaeth ar gyfer pensiynau Gyrfa Cymru. Seilir y symudiad hwn ar prisiad actiwaraidd gan ddarparwyr y cynllun pensiwn.

**2.24** Mae'r tanwariant o £2.4 miliwn yn erbyn MEG Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn arfaethedig a gododd wrth i staff drosglwyddo o Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru i Cyfoeth

Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Er bod y gyllideb wedi'i chynnwys yn ystod y tair blynedd ers y trosglwyddo, nid yw wedi'i defnyddio.

**2.25** Nodwyd tanwariant o £5.4 miliwn yng nghyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Roedd y rhan fwyaf o'r amrywiad hwn yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Y costau pensiwn yw'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd iawn darogan y cyfraniadau hyn.

**2.26** Mae atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o alldro yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

## 3. Cario symiau ymlaen gan Lywodraeth o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru

**3.1** Yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18, nododd Llywodraeth Cymru £145 miliwn o DEL Adnoddau Cyllidol wrth gefn a £189.8 miliwn o DEL Cyfalaf wrth gefn.

**3.2** Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y cronfeydd wrth gefn hyn ynghyd ag unrhyw danwariant i DEL, yn cael eu cario ymlaen o dan y cyfleuster 'Cyfnewid Cyllidebau' hyd at derfyn y cytunir arno ac a orfodir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. O fis Ebrill 2018 cafodd y cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau ei ddisodli gan gronfa arian parod newydd. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, caiff unrhyw danwariant i DEL ei dalu i mewn i'r gronfa i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Gall y gronfa wrth gefn newydd ddal hyd at £350 miliwn yn ei grynswth. Ni chynhwysir DEL adnoddau anghyllidol yn y cyfanswm ac mae unrhyw gyllideb heb ei defnyddio yn cael ei cholli.

**3.3** Yn hwyr yn y flwyddyn ariannol darparodd Llywodraeth y DU swm ychwanegol o £90 miliwn yn DEL Cyfalaf ad-daladwy ychwanegol. Cawsom ganiatâd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i gario'r cyllid ychwanegol hwn ymlaen i lefel uwch na'r terfyn a osodwyd, gan wneud cyfanswm o £440 miliwn.

**3.4** Mae tabl 1 yn dangos sefyllfa DEL o ran cario symiau ymlaen a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru yn mynd i mewn i'r flwyddyn ariannol 2018-19.

**3.5** Yn ogystal â'r tanwariant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r balansau i'w cario drosodd yn ystyried alldro'r cyrff eraill sy'n cael eu hariannu gan DEL Cymru, hy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.6** Ad-delir DEL Cyfalaf ad-daladwy trwy ostyngiad yn y swm yr ydym yn ei gario ymlaen ac yn unol â'r proffil ad-dalu y cytunwyd arno â Thrysorlys Ei Mawrhydi. Ad-dalwyd £0.1m yn 2017-18.

**3.7** Y balansau i'w cario ymlaen ar gyfer DEL Cymru fydd Adnoddau Cyllidol o £271 miliwn a Chyfalaf o £144.6 miliwn. Cyfanswm y balans i'w gario o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2018 yw £415.6 miliwn. Mae hyn o fewn y terfyn diwygiedig.

**Tabl 1 Cario drosodd o ganlyniad i alldro DEL Cymru 2017-18 a Chronfa Wrth Gefn Cymru**

| | Adnoddau Cyllidol £m | Cyfalaf £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| Balans Ardrethi Annomestig a ddelir wrth gefn | 98.5 | - | 98.5 |
| Cronfeydd cynlluniedig yr Ail Gyllideb Atodol 2017-18 | 145.0 | 189.8 | 334.8 |
| Tanwariant / gorwariant Llywodraeth Cymru | 27.0 | -45.6 | -18.6 |
| Alldro cyrff eraill a thaliadau uniongyrchol | 0.5 | 0.5 | 1.0 |
| Ad-dalu cyfalaf ad-daladwy i Drysorlys EM | - | -0.1 | -0.1 |
| **Balans Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2018** | **271.0** | **144.6** | **415.6** |

**3.8** Cyfyngir y swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn o Gronfa Wrth Gefn Cymru i Adnoddau Cyllidol o £125m a Chyfalaf o £50m. Bydd cynlluniau i ddefnyddio cronfeydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2019-20 yn nodwedd o Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2018-19.

**3.9** Roedd dyraniadau i bortffolios Llywodraeth Cymru yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn 2018-19 yn gyfanswm o Adnoddau Cyllidol o £15.4 miliwn a Chyfalaf o £166 miliwn.

## Atodiad 1 – Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) 2017-18

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol | | | Alldro | | | Tanwariant / gorwariant (-) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllid ol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllid ol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllid ol £m | Cyfalaf £m |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 6,996.6 | 190.0 | 339.4 | 6,980.6 | 183.8 | 348.4 | 16.0 | 6.2 | -9.0 |
| **Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus** | 3,628.4 | 0.4 | 625.4 | 3,628.1 | 0.2 | 625.3 | 0.3 | 0.2 | 0.1 |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth** | 520.1 | 196.7 | 545.6 | 520.1 | 162.6 | 585.2 | 0.0 | 34.1 | -39.6 |
| **Addysg** | 1,548.3 | 407.0 | 145.8 | 1,548.2 | 328.2 | 145.4 | 0.1 | 78.8 | 0.4 |
| **Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig** | 269.4 | 13.1 | 104.5 | 269.3 | 10.8 | 103.8 | 0.1 | 2.3 | 0.7 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 296.7 | 21.5 | 14.2 | 286.2 | 19.7 | 12.4 | 10.5 | 1.8 | 1.8 |
| **CYFANSWM** | **13,259.5** | **828.7** | **1,774.9** | **13,232.5** | **705.3** | **1,820.5** | **27.0** | **123.4** | **-45.6** |

## Atodiad 2 – Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol 2017-18

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol £m | Alldro £m | Tanwariant/Gorwariant(-) £m |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | 266.9 | 257.9 | 9.0 |
| **Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus** | 1,087.1 | 1,087.1 | 0 |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth** | 51.9 | 10.2 | 41.7 |
| **Addysg** | 433.7 | 386.9 | 46.8 |
| **Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig** | 2.4 | 0 | 2.4 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 2.8 | -2.6 | 5.4 |
| **CYFANSWM** | **1,844.8** | **1,739.5** | **105.3** |